Cyllid dol er gael wrth i £657,043 gyhwanegol gael ei



Tri phrosiect newydd i greu neu wella coetiroedd i gymunedau lleol yw'r diweddaraf i dderbyn arian y Grant Buddsoddi Mewn Coetir (TWIG).

Mae grantiau o £40,000 i £250,000 ar gael gan TWIG - rhaglen rydym yn ei ddarparu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru sydd yn rhan o raglen Coedwig Genedlaethol i Gymru. Mae'r cyllid hwn ar gyfer sefydliadau sy'n creu coetiroedd hygyrch wedi eu rheoli yn dda y gall cymunedau lleol eu cysylltu â nhw yng Nghymru.

> Bydd y prosiectau hyn nid yn unig o bwys mawr i fioamrywiaeth ond i'r cymunedau lleol fydd yn elwa, gan alluogi mynediad gwell i'n coetiroedd presennol fel y gall mwy o bobl eu defnyddio a mwynhau."
>
> *Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd*



Argae a llyn Llys y Fran ar ddiwrnod heulog

Tri phrosiect yn derbyn arian

Dyfarnwyd y grantiau diweddaraf hyn, sef cyfanswm o £657,043, i brosiectau yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd ac maent wedi dilyn y grantiau blaenorol a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror.

Mae **D?r Cymru'n** cael £245,860 ar gyfer prosiect Llys y Fran yn Sir Benfro i ddarparu coetiroedd amlbwrpas ar gyfer cyfleoedd hamdden, twristiaeth, ymgysylltu â'r gymuned a chyfleoedd dysgu.

Mae **Cyngor Sir Gâr** wedi derbyn £219,397 am brosiect Coed Ynys Dawela ger Brynaman. Bydd y gwaith yn cynnwys mannau coedlannau i wella strwythur y coetir a gosod tua 400m o lwybr bordiau pren dros ardaloedd gwlyb.

Mae prosiect 'Gwyrdd Ni' **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** yn derbyn £191,786 i wella coetir collddail presennol ar ei safle y tu allan i Gaerdydd. Bydd y prosiect yn creu coetir deinamig a deongliadol a fydd yn cael ei reoli nid yn unig drwy'r tymhorau, ond wrth iddo aeddfedu ac esblygu.

Y rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru

Dywedodd Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd: “Bydd y prosiectau hyn nid yn unig o bwys mawr i fioamrywiaeth ond i'r cymunedau lleol fydd yn elwa, gan alluogi mynediad gwell i'n coetiroedd presennol fel y gall mwy o bobl eu defnyddio a'u mwynhau.

"Fel rhan o'n rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru bydd y prosiectau hyn yn helpu i adfer a chynnal rhai o goetiroedd hynafol anadferadwy Cymru, a fydd, ymhen amser, yn ffurfio rhwydwaith cysylltiedig sy'n rhedeg ledled Cymru, gan ddod â buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol."



Dôl yn Ynys Dawela sydd wedi ei baratoi i ddenu gloÿnnod byw brith y gors

Ymgeisio am ariannu TWIG

Rhaid i sefydliadau sydd yn gymwys i gael cyllid TWIG fod yn berchen ar dir neu reoli ei reolaeth ac am gynnwys y gymuned yn y prosiect wrth greu, cynnal neu wella coetir.

Mae dwy rownd ariannu yn weddill drwy'r rhaglen TWIG. Dyma'r terfynau amser i gyflwyno datganiad o ddiddordeb:

- 20 Ebrill 2023 am rownd pedwar
- 7 Rhagfyr 2023 am rownd pump



efyd mewn ...

Plant yn archwilio coetir aeddfed

Dros £1miliwn wedi ei fuddsoddi yng nghoetiroedd Cymru, a mwy ar gael



h Wales

Cytref o huganod. Credyd: Dave Boyle

£3.78 miliwn i rywogaethau a warchodir a safleoedd natur ledled Cymru